yn rhoi cartref i fyd natur | giving nature a home

Cymru

RSPB South Stack

Frequently Asked Questions

July 2019

The following information provides context and information for the rationale behind a new pricing structure and concessions for the car park charge as well as infrastructure development at RSPB South Stack. This replaces all previous Frequently Asked Questions about South Stack published by RSPB Cymru.

1. Car park charges

Why is the RSPB going to charge to park at South Stack?
South Stack is a special place for wildlife, and important to both residents and visitors to North Wales. Managing our natural heritage well, to maintain the diversity, extent and beautiful spectacle of our wildlife and to provide the high-quality facilities and experience expected by our visitors, is an expensive business. The RSPB spends almost £300,000 each year managing South Stack. We're very grateful to everyone who visits our café and shop at the site, and to our members for their subscriptions and donations, as these help to offset some of the costs. Nonetheless, running South Stack costs the RSPB around £100,000 each year (net).

In the past we have been able to bridge that gap through other sources, but public sector funding for the environment has been dramatically reduced over recent years, so grants are increasingly competitive. To continue to operate our nature reserves at the standard that visitors expect (and importantly, that nature needs) we need to generate new sources of income.

Charging a fee for car parking is the most appropriate way to raise additional income at RSPB South Stack. We considered the introduction of entrance fees to generate the income needed, but this would result in a significant increase in costs for visitors who aren't RSPB members, so we decided against that.

Since announcing the proposals in spring 2018, we have listened carefully to the views expressed and suggestions made, and modified our plans. In particular:

- some people felt that a flat rate all day would deter people who wanted to visit for a short period, such as popping in for drink, taking in the view or dog-walking. In response, we will offer a lower rate for the first hour.

- many people felt that our offer of an annual pass should not be restricted to residents around Holyhead, and proposed that our offer should extend to the whole of Anglesey. Our £20 annual concession will thus be available to all Anglesey residents.

- we have reviewed our charging structure and will no longer charge holders of blue badge permits to park at any of our nature reserves.

The RSPB is not alone among public, private and third sector organisations who charge for parking or entrance fees to offset costs. Publicly-funded bodies who manage other sites on Anglesey, such as Isle of Anglesey County Council's Holyhead Breakwater Country Park and Natural Resources Wales' Newborough Warren, have car park charging in place to bring in the funds to deliver services.

What will the charges be?

During the rebuilding of the Visitor Centre car park charges will be at a reduced rate:
- Parking vehicles is free for the first two hours, thereafter £2.50 for the whole day for non-members.
- Parking is free to RSPB members (if membership card is displayed on the dashboard).
- Parking is free to blue badge permit holders.
- Parking is free to motorcylcists.

Charges apply from 9am-5pm. No overnight parking or camping is permitted. Note that owing to the building works, during the remainder of 2019, there is no turning space for coaches and very large motorhomes at South Stack. The visitor centre car park has reduced parking capacity by half.

Following completion of the building work (anticipated in December 2019), the below rates will apply:

Cars, vans and motorhomes

- Peak season (15 March to 31 October): £2 for one hour / £5 for the day
- Low season (1 November to 14 March): £1.50 for one hour / £2.50 for the day
- £20 annual pass for Anglesey residents (more information about this trial below)
- Free to RSPB members (if membership card is displayed on the dashboard), blue badge permit holders and motorcyclists.

Coaches and minibuses (over 6 metres long)

- Peak season (15 March to 31 October): £6 for one hour / £15 for the day
- Low season (1 November to 14 March): £4.50 for one hour / £7.50 for the day

Charges apply from 9am-5pm. As now, no overnight parking will be permitted.

When will charges come into force?
Charges will start on 9 July 2019.

In which car parks does the charge apply?
The charges apply in all three car parks at South Stack managed by RSPB Cymru: the main car park by the Visitor Centre (SH208820), the smaller one by Plas Nico, from which you can walk along the cliff tops to Ellin's Tower (SH210818) and the small parking area above the Visitor Centre (SH206821).

How can I pay for parking?
The parking machines in the lower (Plas Nico) and upper car parks are cash only. The ticket machine closest to the Visitor Centre accepts cash and cards (contactless), but owing to the building works, this will not be in use until the Visitor Centre reopens in January 2020.

We would have liked to provide contactless card payment at all three locations, but that facility relies on a good mobile phone signal, and tests at South Stack found the signal is too poor for card payments to be taken.

How will you monitor or enforce the charges?
By parking in a privately-managed car park, a vehicle owner is agreeing to the terms and conditions of entry. As a charity, we will aim to keep staffing costs for car park enforcement to a minimum. At this stage, we will not be hiring new staff to monitor parking, but volunteers and staff will help us check that people have paid the correct fee for their stay. To a large extent we will be trusting our visitors to pay the correct fee. We take this approach at other reserves and find that through providing a great experience of wildlife and natural areas and a high standard of facilities, many visitors become RSPB supporters.

We will monitor the levels of adherence to the charge, and keep under review measures to ensure that the car park charges provide the funds that we need to maintain our visitor operation at South Stack. CCTV will be installed at South Stack for the safety of all our visitors.

Can I park on the road?
South Stack Road is narrow with no roadside verges, and stone walls along both sides for most of its route. This is a public highway and the local authority can act if they consider a vehicle to be causing an obstruction, such as by having the vehicle towed away and/or issuing a penalty notice.

I live on Anglesey, how can I get an annual pass?
These are available from the information point in the lower car park at South Stack nature reserve, and valid for 12 months. Two cars can be included on the pass, so remember to bring the registration number of both vehicles with you, along with either:

(1) photocard driving licence

OR

(2) personal photographic identification (e.g. passport, work ID card) AND proof of Anglesey residence (e.g. utility or council tax bill).

You can pay for this by cash or credit / debit card. Please display this card in your windscreen/on your dashboard when you use one of the car parks at South Stack.

Why are you trialling these concessions?
We will monitor the annual pass to Anglesey residents and the number of people who stay for less than one hour, and will review take-up and the impact of these concessions on our need to ensure that our South Stack visitor operation does not make a loss.

Will charges increase next year?
We are committed to maintaining the parking charges at the levels listed above until April 2022.

We will hold the annual concessionary rate at £20 until December 2020, monitoring take-up by Anglesey residents and ensuring we are covering our administration costs.

We will review the financial and visitor data and evidence in an open and honest way by sharing this information with local stakeholders, including town and community council members.

What will be the impact on the lighthouse?
The RSPB is fully committed to the future viability of access to the wider South Stack destination which, of course, includes the lighthouse.

We fully acknowledge that for a proportion of the visitors to South Stack, a visit to the lighthouse is a key part of the experience. Visitors who undertake an excursion to the lighthouse are likely to have some of the longest dwell times for a South Stack visit and therefore are likely to make full use of all facilities. It is important to recognise that the cost of providing the basic facilities enjoyed by all visitors are currently borne almost entirely by the RSPB, e.g. the upkeep and maintenance of the car parks, visitor trails, visitor toilets, etc. In addition to these basic but important facilities, all visitors who come to the site, irrespective of the main purpose of their visit, enjoy a well-managed landscape and an engagement with wildlife that adds value to their experience.

As a charity, we are obliged to spend our money wisely on our core purposes (nature conservation and education about nature). Along with many other organisations, we are having to look for new and innovative ways to generate income.

We work closely with Trinity House and South Stack Heritage Group (which leases the lighthouse building); we have, for example, agreed to the Group having a ticket booth on the reserve during summer 2019, while the RSPB Visitor Centre is closed, and we are discussing how, together, we ensure that visitors to South Stack continue to enjoy an integrated, quality experience in the most financially sustainable way for all partners. One idea under discussion is the possibility of a minibus service to improve the transport links between South Stack and Holyhead.

However, the RSPB, Trinity House (the owners of the lighthouse) and South Stack Heritage Group cannot subsidise other organisation's operations.

2. Visitor Centre rebuild

Why is building work necessary?
RSPB South Stack nature reserve is one of the highest footfall tourist destinations in Wales with 185,000 people visiting each year, 115,000 of whom use our Visitor Centre and toilets. The buildings were not built with the intention of supporting so many people at South Stack. When the original café was built, footfall was lower and local authority public toilets served non-café visitors. These toilets no longer exist and the only facilities are those provided by the RSPB.

Regular visitors will know that the Visitor Centre and staff offices are old, dilapidated and have suffered significant storm damage over successive winters, which has compounded an already degrading building. We have made repairs where we can, but were forced to close the office space as it was unsafe and installed a temporary facility for staff that is not suitable in the long-term. In March 2019 we had to close the Visitor Centre following a series of ceiling collapses. The toilets did not meet the needs of all our visitors and the on-site sewage treatment plant has struggled to cope with the number of users.

If the RSPB Visitor Centre is to continue to operate, we must address all these issues. Continuing to patch up the buildings is not a long-term solution and we need to undertake this work to ensure we comply with our legal requirements as an employer to provide safe accommodation for our staff and volunteers with adequate toilet and welfare facilities.

Although perched in a dramatic location with incredible wildlife and iconic views, the existing facilities are not able to show this off, so we have taken the opportunity to redesign the café so that visitors are brought closer to this landscape, whatever the weather, with floor-to-ceiling glass and no pillars to interrupt the view. The café will be more accessible than currently, on a single level rather than the current split level.

What will the construction work entail?
The existing two-storey structure, that houses the reserve offices, staff welfare facilities and public toilets at South Stack, has reached the end of its natural life.

We will partially demolish the two storey structure and part of the single storey structure (at the rear of the property), replacing them with a purpose built modern facility for the 21st century. The new building will enable the café to be on a single level, it will provide new, larger visitor toilets and storage on the ground floor. The first floor will include a meeting room, staff changing area, staff kitchen, staff toilets, storage and office space. This development will offer much improved facilities to the staff, volunteers and the 185,000 visitors who visit the reserve annually.

The new extension has been designed to reflect the local landscape. The new building, through ground-to-ceiling window panes, will open-up the dramatic South Stack vista, encourage participation in, and showcase the natural heritage at this Area of Outstanding Natural Beauty (AONB). The building will be far more efficient and environmentally-friendly, well-insulated, double glazed and include more efficient and water-saving toilets.

The work will also replace an existing septic tank with a new sewage treatment plant. The position and type of sewage treatment work has been designed in close consultation with Natural Resources Wales, and will use a natural reedbed system to clean the grey water. This will dramatically improve on the existing costly system that is reaching the end of its life.

You can see an artists' impression of the building on the nature reserve blog.

When will the building work start?
RL Davies Construction Ltd has been awarded the contract following a detailed tendering process. Preparing the site and rearranging the car park began in April with work starting on the building in June.

What impact will the work have on visitors to the reserve during construction?

- The nature reserve will remain open throughout, as will Ellin's Tower, which is staffed daily so that visitors can see the seabirds and discover more about the amazing wildlife of the area.
- The two smaller car parks (above and below the main parking area) are open throughout. During the building period, vehicles will be free for the first two hours, thereafter £2.50 for the whole day (and free for RSPB members and blue badge holders).
- The Visitor Centre is closed and the main car park has been reduced in size, accessed via a temporary entrance. However, there will be days (such as during demolition) that the main car park will closed completely.
- Temporary catering and toilet facilities have been installed in the lower car park (Plas Nico), from where there is a step-free trail to Ellin's Tower.

- The contractor may need to close the road for brief periods during the build/demolition, with the agreement of Isle of Anglesey County Council. On these occasions, the top car park will also be unavailable.
- The lighthouse is run by a separate organisation. Tickets can be purchased on the day of visiting at the bridge. Please contact them directly for prices and opening times. http://www.southstacklighthouse.com
- We are working with our contractor to minimise impact, and communicate closures in advance. We will do this on site, on Twitter (available to anyone with web access (https://twitter.com/rspbsouthstack) and in response to telephone enquiries (01407 762100).

What will be the impact on neighbouring properties and wildlife during construction?

- Construction work will only take place on weekdays, to minimise noise disturbance to neighbours.
- An independent ecologist conducted a wildlife survey of the development area as part of the planning application, and we have had extensive discussions with Natural Resource Wales to ensure that the new sewage treatment plant will not harm the interests of the SSSI, and includes appropriate planting for the landscape and location.
- We are taking precautions to ensure that no breeding birds will be affected by the work. Originally, we had hoped to carry out the demolition outside the breeding season, but that has not proved possible.

How is the redevelopment being funded?

This critical redevelopment of the site has been made possible with support through the Welsh Government Rural Communities Rural Development Programme 2014-20, funded by the European Agricultural Fund for Rural Development (EAFRD) and the Welsh Government. Together with our own financial contribution, this redevelopment equates to over £1m investment in the site, and years of work to help ensure a quality attraction, safeguard jobs and visitor services in the area.

This level of investment is not easy to find and is not something RSPB can do without significant consideration. With finite charitable resources, we had to put a detailed business case together for our Board, Trustees and funders – and to show financial responsibility to our members, supporters and the Charity Commission. This business case ensures that funds were being well spent, and income streams are identified to ensure the site is sustainable in the long term.

The cost of managing the RSPB's operation at South Stack varies annually, depending on factors such as the amount of habitat management we undertake in a given year or repairs we might have to make to the visitor infrastructure and facilities. The net cost is at least £100,000 each year and in some years significantly more. The costs include managing the coastal heathland and fields for its special wildlife, including choughs, silver-studded blue butterflies and South Stack fleawort. The contribution made by the shop and café help to ensure that this net cost is not even greater.

In some years the RSPB is successful in applying for grants or donations that allow us to invest more in the site through funded projects though this type of income varies considerably between years and in the current financial climate, has become much harder to access. The £100,000 net cost is a minimum that does not include the overheads that support the reserve, such as work by our land agent and ecologists who support the local team.

To provide a sustainable income in the future, we have to introduce a car parking charge.

3. RSPB management of South Stack Cliffs nature reserve

What does the RSPB do at South Stack?

South Stack is protected under UK and European nature laws – this particular landscape is a Site of Special Scientific Interest (SSSI) and it is a legal requirement that RSPB (on behalf of the owner, Isle of Anglesey County Council) carries out annual management of the approximately 300 hectares of heathland and sea cliffs. If we don't follow our own management plan or we damage the SSSI/SAC we could face serious legal penalties. Fulfilling these legal requirements requires a substantial sum of money.

The RSPB at South Stack owns the Visitor Centre and car park, Grade-2 listed Ellin's Tower, buildings at Plas Nico and farmland at Pen y Bonc and Gors Goch. We lease Holyhead Mountain and The Range from the Isle of Anglesey Council for a 'peppercorn rent'. In return, the RSPB shoulders the burden of pretty much all the running costs of the site that would otherwise have to be paid for by the council and its taxpayers.

Why does nature need managing? Why can't we just leave it alone?
Ancient farming practices on Holy Island, resulted in a heather-rich landscape. Farm animals would have grazed the land, creating areas of no heather (bare patches), young heather and old heather. When these farming practices died out, 80% of this lowland heathland across the UK disappeared. Fortunately, at South Stack, a remnant of this special landscape remains thanks to careful land-management, and rare butterflies like the silver-studded blue and the chough flourish. Legal designations recognise this rare and precious habitat. If we do not manage this well, the heather would become tall and 'rank', we would lose the mosaic of habitats and most of South Stack's intrinsic beauty and value for wildlife.

The RSPB grazes the heathland with our flock of shepherded sheep, and cuts and burns old heather. We pay local contractors to help us carry out this task. Natural Resources Wales (Welsh Government's statutory body that ensures the environment and natural resources of Wales are sustainably maintained and used), works with us to make sure we follow the legal obligations, and we create a mutually-agreed five-year plan for the management of South Stack.

Our team carefully selects the areas of older heathland to be grazed, cut or burnt, and monitors the resulting effect on rare plants and birds. Denise, our warden, along with a team of staff and volunteers, also maintains our farmland and ensure the health of our sheep and cattle that graze the land. Chough, one of the UK's rarest breeding birds, benefit from this grazing technique and, during the nesting season, we are responsible for managing the fields and heathland to make sure the growing chicks have plenty to eat.

As well as heathland management, we are obliged to do many surveys and counts on our rare species of birds, plant and wildlife on the reserve. We also carry out annual seabird monitoring. By monitoring the birds and wildlife, we can see if there are any changes in their numbers. If we see a big change we look at what has caused it and if we can do anything to help support the recovery of those numbers. Our five-year management plan is to help support these plants and animals based on specialist knowledge.

Other costs to the reserve include maintenance of trails and paths, the car park, interactive information panels, live cliff cameras and staff costs. We employ around 20 people at South Stack who not only do the conservation work, but also run the visitor centre, shop and café to the high standards required by visitors from all over the world who travel to South Stack.

If you have any further questions relating to any of the above, please email us at cymru@rspb.org.uk.

yn rhoi cartref i fyd natur | giving nature a home

Cymru

RSPB Ynys Lawd

Cwestiynau Cyffredin

Gorffennaf 2019

Nod y wybodaeth ganlynol yw ceisio cynnig y cyd-destun a'r sail resymegol sydd wrth wraidd y strwythur prisio a chonsesiynau newydd ar gyfer codi tâl am barcio ar warchodfa RSPB Ynys Lawd, yn ogystal â'r gwaith datblygu ac adeiladu fydd ar y warchodfa yn y dyfodol agos. Mae'r diweddariad hwn yn cymeryd lle pob fersiwn flaenorol o Gwestiynau Cyffredin ynglŷn ag Ynys Lawd a chyhoeddwyd gan RSPB Cymru hyd yma.

4. Taliadau maes parcio

Pam mae'r RSPB yn bwriadu codi tâl i barcio ar Ynys Lawd?
Mae Ynys Lawd yn lle arbennig ar gyfer bywyd gwyllt, ac mae'n safle o bwys i drigolion ac ymwelwyr i Ogledd Cymru. Mae rheoli ein treftadaeth naturiol yn dda, y golygfeydd ac ystod eang ein bywyd gwyllt, i ddarparu'r cyfleusterau a'r profiad o ansawdd uchel y mae ein hymwelwyr yn eu disgwyl, yn fusnes drud. Mae'r RSPB yn gwario bron i £300,000 bob blwyddyn yn rheoli Ynys Lawd. Rydym yn ddiolchgar iawn i bawb sy'n ymweld â'n caffi a'n siop ar y safle, ac i'n haelodau am eu tanysgrifiadau a rhoddion, oherwydd mae'r rhain yn helpu i dalu rhai o'r costau. Serch hynny, mae rheoli Ynys Lawd yn costio tua £100,000 (net) i'r RSPB yn flynyddol.

Yn y gorffennol, rydym wedi gallu cau'r bwlch ariannol hwnnw drwy ffynonellau eraill, ond mae cyllid y sector cyhoeddus ar gyfer yr amgylchedd wedi lleihau'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf. Yn sgil hynny, mae sicrhau incwm drwy grantiau'n gynyddol gystadleuol, ac mae rheoliadau newydd ar elusennau a diogelu data yn ei wneud yn fwy anodd i ni godi arian a chysylltu â darpar gefnogwyr. Er mwyn parhau i reoli ein gwarchodfeydd natur i'r safon y mae ymwelwyr yn ei disgwyl (ac yn hollbwysig, at anghenion byd natur) mae angen inni greu ffynonellau incwm newydd.

Codi tâl am barcio ceir yw'r ffordd fwyaf priodol o godi incwm ychwanegol ar warchodfa RSPB Ynys Lawd. Fe wnaethom ni ystyried cyflwyno ffioedd mynediad i gynhyrchu'r incwm sydd ei angen, ond byddai hyn yn arwain at gynnydd sylweddol mewn costau i ymwelwyr nad ydynt yn aelodau o'r RSPB, felly penderfynwyd yn erbyn hynny.

Ers cyhoeddi'r cynigion yng ngwanwyn 2018, rydym wedi gwrando'n ofalus ar y safbwyntiau a fynegwyd a'r awgrymiadau a wnaed gan y cyhoedd, ac wedi newid ein cynlluniau. Yn benodol:

- roedd rhai pobl yn teimlo y byddai codi cyfradd unffurf drwy'r dydd yn rhwystr i bobl sy'n dymuno ymweld ag Ynys Lawd am gyfnod byr, fel picio draw am ddiod, mwynhau'r golygfeydd neu i gerdded cŵn. Mewn ymateb, byddwn yn cynnig cyfradd îs ar gyfer yr awr gyntaf.

- roedd nifer o bobl yn teimlo na ddylid cyfyngu ein cynnig o docynnau blynyddol i drigolion dalgylch Caergybi yn unig, ac wedi awgrymu y dylai'r cynnig ymestyn i Ynys Môn gyfan. Bydd ein consesiwn blynyddol o £20 ar gael felly i holl drigolion yr ynys.

- rydym wedi adolygu ein strwythur codi tâl ac ni fyddwn bellach yn codi tâl ar ddeiliaid trwyddedau bathodynnau glas i barcio yn unrhyw un o'n gwarchodfeydd natur.

Nid yr RSPB yw'r unig gorff ymhlith sefydliadau cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector sy'n codi tâl am barcio neu ffioedd mynediad i helpu i dalu costau. Mae gan gyrff sy'n derbyn arian cyhoeddus sy'n rheoli safleoedd eraill ar Ynys Môn, fel Parc Gwledig Morglawdd Caergybi sy'n eiddo i Gyngor Sir Ynys Môn a Thywyn Niwbwrch sy'n eiddo i Gyfoeth Naturiol Cymru, feysydd parcio sy'n codi tâl er mwyn cynhyrchu incwm i ddarparu gwasanaethau.

Beth fydd cost y taliadau?

Thrwy gydol cyfnod ail-adeiladu'r Ganolfan Ymwelwyr bydd taliadau maes parcio ar gyfradd is:

- Ni fydd tal i gerbydau am y ddwy awr gyntaf, yna, ar ôl hynny, £2.50 fydd y tal am hyd at ddiwrnod cyfan.
- Bydd parcio yn dal i fod yn rhad ac am ddim i aelodau'r RSPB (os caiff cerdyn aelodaeth ei arddangos drwy ffenestr y cerbyd)
- Bydd parcio hefyd yn rhad ac am ddim i deiliaid trwyddedau bathodynnau glas.
- Bydd parcio yn dal i fod yn rhad ac am ddim i feicwyr modur.

Bydd y taliadau yma mewn grym rhwng 9yb-5yp. Fel y drefn bresennol, nid ydym yn caniatáu parcio dros nos. Noder, oherwydd y gwaith adeiladu, ni fydd lle i droi ar gyfer coetsys a cartrefi modur yn Ynys Lawd am weddill 2019. Mae maes parcio'r ganolfan ymwelwyr wedi lleihau i hanner ei faint.

Ar ôl cwblhau'r gwaith adeiladu (ar hyn o bryd, ni'n disgwyl i hynny ddigwydd ym mis Rhagfyr 2019), bydd y cyfraddau isod yn dod i rym:

Ceir, faniau a chartrefi modur

- Tymor brig (15 Mawrth i 31 Hydref): £2 am un awr / £5 hyd at ddiwrnod cyfan
- Tymor tawel (1 Tachwedd to 14 Mawrth): £1.50 am un awr / £2.50 hyd at ddiwrnod cyfan
- Tocyn blwyddyn ar gyfradd gonsesiynol o £20 i drigolion Ynys Môn (rhagor o wybodaeth am yr arbrawf hwn isod)
- Rhad ac am ddim i aelodau o'r RSPB (os caiff cerdyn aelodaeth ei arddangos drwy ffenestr y cerbyd), deiliaid trwyddedau bathodynnau glas a beicwyr modur.

Bysiau a bysiau mini (dros 6 metr o hyd)

- Tymor brig (15 Mawrth i 31 Hydref): £6 am un awr / £15 hyd at ddiwrnod cyfan
- Tymor tawel (1 Tachwedd i 14 Mawrth): £4.50 am un awr / £7.50 hyd at ddiwrnod cyfan

Bydd y taliadau yma'n mewn grym rhwng 9yb-5yp. Fel y drefn bresennol, nid ydym yn caniatáu parcio dros nos.

Pryd y daw'r taliadau i rym?
Bydd y taliadau'n cychwyn ar 9 Gorffennaf 2019.

Ym mha feysydd parcio y byddwch chi'n codi tâl?
Fe fydd yna dâl i barcio ymhob un o'r tri maes parcio ar Ynys Lawd sy'n cael ei reoli gan RSPB Cymru: y prif faes parcio gerllaw'r Ganolfan Ymwelwyr (SH208820), y lleiaf ger Plas Nico, lle gallwch chi gerdded ar hyd topiau'r clogwyni i Dŵr Elin ohono (SH210818) a'r man parcio bach uwchlaw'r Ganolfan Ymwelwyr (SH206821).

Sut fedra'i dalu am barcio?
Bydd y peiriant yn y maes parcio isaf (Plas Nico) a'r maes parcio uchaf yn derbyn arian parod yn unig. Bydd y peiriant parcio sydd agosaf at y Ganolfan Ymwelwyr yn derbyn arian parod a chardiau (trwy dechnoleg digyffwrdd), ond oherwydd y gwaith adeiladu, ni fydd hyn yn cael ei ddefnyddio nes bydd y Ganolfan Ymwelwyr yn ailagor yn Ionawr 2020.

Fe fyddem wedi hoffi gallu cynnig dull digyffwrdd o dalu ym mhob un o'r tri lleoliad, ond mae'r dechnoleg hon yn dibynnu ar signal ffôn symudol da, ac mae profion ar Ynys Lawd wedi canfod bod y signal yn rhy wael ar gyfer cymryd taliadau cardiau yn ddigyffwrdd.

Sut byddwch chi'n monitro neu'n sicrhau bod pobl yn talu i barcio?
Drwy barcio mewn maes parcio sydd wedi'i reoli yn breifat, mae perchennog y cerbyd yn cyd-fynd â'r telerau ac amodau mynediad. Fel elusen, byddwn yn anelu at gadw costau staffio i sicrhau bod pobl yn talu am barcio mor isel â phosib. Fel y mae hi ar hyn o bryd, fyddwn ni ddim yn cyflogi staff newydd i fonitro parcio, ond bydd gwirfoddolwyr yn ein helpu i wirio bod pobl wedi talu'r ffi gywir am eu harhosiad. I raddau helaeth, byddwn yn ymddiried yn ein hymwelwyr i dalu'r ffi gywir. Dyma sut rydym yn mynd ati ar ein gwarchodfeydd eraill ac, yn aml iawn, drwy ddarparu profiadau gwych o fywyd gwyllt a chynefinoedd hyfryd a thrwy gynnig cyfleusterau o safon uchel, mae nifer o ymwelwyr penderfynu dod yn gefnogwyr o'r RSPB.

Byddwn yn monitro faint o bobl sy'n talu'r ffi ai peidio a byddwn yn adolygu o bryd i'w gilydd a yw'r taliadau maes parcio yn darparu'r arian sydd ei angen arnom i gynnal ein gweithgareddau i ymwelwyr ar Ynys Lawd. Bydd CCTV yn cael ei osod yn Ynys Lawd ar gyfer diogelwch ein holl ymwelwyr.

Alla'i barcio ar y ffordd?
Mae Ffordd Ynys Lawd yn gul heb lain ymyl ffordd ac mae waliau cerrig ar hyd y ddwy ochr ar gyfer y rhan fwyaf o'i llwybr. Mae hon yn briffordd gyhoeddus a gall yr awdurdod lleol weithredu os ydyw'n ystyried bod cerbyd yn achosi rhwystr, er enghraifft drwy dowio'r cerbyd i ffwrdd a / neu i godi cosb ariannol.

Dwi'n byw ar Ynys Môn, sut fedra'i gael fy nhocyn blwyddyn?
Bydd y rhain ar gael o'r Ganolfan Ymwelwyr ar warchodfa natur Ynys Lawd a byddant yn ddilys am 12 mis. Mae modd cynnwys dau gar ar un tocyn, felly cofiwch ddod â rhif cofrestru'r ddau gerbyd gyda chi, ynghyd â naill ai:

(1) trwydded cerdyn-llun

NEU

(2) ddogfen adnabod gyda ffotograff (e.e. pasbort, cerdyn adnabod gwaith) YN OGYSTAL Â phrawf eich bod yn byw ar Ynys Môn (e.e. bil treth cyngor neu fil cyfleustodau).

Gallwch dalu amdano drwy arian parod neu gerdyn credyd / debyd. Dangoswch y cerdyn hwn os gwelwch yn dda yn ffenestr y car pan fyddwch chi'n defnyddio un o'r meysydd parcio ar Ynys Lawd.

Pam ydych chi'n treialu'r consesiynau hyn?
Byddwn yn monitro defnydd o'r tocyn blwyddyn i drigolion Ynys Môn, yn ogystal â'r nifer o bobl sy'n aros ar y warchodfa am lai nag awr, ac yn adolygu effaith y consesiynau hyn ar ein gallu i sicrhau nad yw'r hyn rydym yn ei gynnig i ymwelwyr i Ynys Lawd yn gwneud colled ariannol.

A fydd taliadau'n cynyddu flwyddyn nesaf?
Rydym wedi ymrwymo i gynnal y taliadau parcio sydd wedi'u nodi uchod tan fis Ebrill 2022.

Byddwn yn dal y gyfradd ratach flynyddol o £20 tan fis Rhagfyr 2020, gan fonitro faint o drigolion Ynys Môn sy'n manteisio arni a'i bod yn medru talu ein costau gweinyddol.

Byddwn yn adolygu'r data ariannol ac ar ymwelwyr a rhannu'r wybodaeth hon yn agored â rhanddeiliaid lleol, gan gynnwys aelodau o'r cynghorau tref a chymuned.

Beth fydd yr effaith ar y goleudy?
Mae'r RSPB yn gwbl ymrwymedig i sicrhau mynediad gweithiadwy yn y dyfodol i gyrchfan ehangach Ynys Lawd sydd, wrth gwrs, yn cynnwys y goleudy.

Rydym yn llwyr gydnabod bod ymweliad â'r goleudy yn rhan allweddol o'r profiad o ymweld ag Ynys Lawd i gyfran o'r ymwelwyr. Mae'n debygol mai'r ymwelwyr sy'n mynd ar y daith i'r goleudy yw'r rheiny sy'n aros hiraf ar Ynys Lawd ac felly'n fwy tebygol o wneud defnydd llawn o'r holl gyfleusterau sydd ar gael iddynt. Mae'n bwysig nodi bod y gost o ddarparu'r cyfleusterau sylfaenol y mae pob ymwelydd yn eu mwynhau ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni, bron yn gyfan gwbl, o goffrau'r RSPB e.e. cynnal a chadw'r meysydd parcio, y llwybrau, y toiledau i ymwelwyr ac ati. Yn ogystal â'r cyfleusterau sylfaenol ond pwysig hyn, mae'r ymwelwyr sy'n dod i'r safle, waeth beth yw prif bwrpas eu hymweliad, yn mwynhau'r dirwedd rydym yn ei rheoli ac ymgysylltu â bywyd gwyllt sy'n ychwanegu cymaint at eu profiad o fod ar y warchodfa.

Fel elusen, mae'n rhaid i ni wario ein harian yn ddoeth at ein dibenion craidd (cadwraeth natur ac addysg am natur). Ynghyd â llawer o sefydliadau eraill, mae'n rhaid inni edrych am ffyrdd newydd ac arloesol o gynhyrchu incwm.

Rydym yn cydweithio'n agos â Trinity House a Grŵp Treftadaeth Ynys Lawd (sy'n prydlesu adeilad y goleudy); rydym wedi cytuno, er enghraifft, i'r Grŵp gael gosod bwth tocynnau ar y warchodfa yn ystod haf 2019 tra bod Canolfan Ymwelwyr yr RSPB ar gau. Rydym yn trafod hefyd sut y gallwn, gyda'n gilydd, sicrhau bod ymwelwyr i Ynys Lawd yn parhau i fwynhau profiad integredig o safon trwy ffyrdd sy'n gynaliadwy yn ariannol i bob partner. Un syniad dan drafodaeth yw'r posibilrwydd o wasanaeth bws mini i wella cysylltiadau trafnidiaeth rhwng Ynys Lawd a Chaergybi.

Fodd bynnag, ni all yr RSPB, Trinity House (perchnogion y goleudy) na Grŵp Treftadaeth Ynys Lawd sybsideiddio gweithrediadau sefydliad arall.

5. Ail-adeiladu’r Ganolfan Ymwelwyr

Pam mae angen y gwaith adeiladu yma?
Mae gwarchodfa natur RSPB Ynys Lawd yn un o'r cyrchfannau twristiaid mwyaf yng Nghymru gyda 185,000 o bobl yn ymweld â'r safle bob blwyddyn, ac mae 115,000 o'r rheiny yn defnyddio ein Canolfan Ymwelwyr a'n toiledau. Ni chafodd yr adeiladau eu hadeiladu gyda'r bwriad o wasanaethu cymaint o bobl ar Ynys Lawd. Pan adeiladwyd y caffi gwreiddiol, roedd nifer yr ymwelwyr yn îs ac roedd toiledau cyhoeddus o eiddo'r awdurdod lleol ar gael at ddefnydd yr ymwelwyr hynny nad oeddynt yn galw mewn yn y caffi. Nid yw'r toiledau hyn yn bodoli bellach a'r unig gyfleusterau yw'r rhai sy'n cael eu darparu gan yr RSPB.

Bydd y rheiny ohonoch chi sy'n ymweld ag Ynys Lawd yn rheolaidd yn gwybod bod y Ganolfan Ymwelwyr a'r swyddfeydd i staff yn hen, yn dadfeilio ac wedi dioddef difrod sylweddol yn sgil stormydd dros y gaeafau diweddar. Mae hyn wedi dwysáu cyflwr adeilad oedd eisoes yn wael. Rydym wedi gwneud gwaith atgyweirio lle y medrwn ni, ond bu'n rhaid i ni gau'r swyddfa gan nad oedd hi'n ddiogel i staff weithio ynddi. Crëwyd swyddfa dros dro iddynt ond 'dyw honno ddim yn addas yn yr hirdymor. Ym mis Mawrth 2019 bu'n rhaid i ni gau'r Ganolfan Ymwelwyr oherwydd y perygl y byddai'r nenfwd yn disgyn. Nid yw'r toiledau yn diwallu anghenion ein holl ymwelwyr ac mae'r gwaith trin carthion ar y safle yn methu'n lan ag ymdopi â nifer y defnyddwyr.

Os yw Canolfan Ymwelwyr yr RSPB i barhau yn agored, rhaid inni fynd i'r afael â'r holl faterion hyn. Nid yw parhau i wneud gwaith trwsio dros dro i'r adeiladau yn ateb hirdymor i'r broblem. Mae angen i ni wneud y gwaith hwn er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn cydymffurfio â'n gofynion cyfreithiol fel cyflogwr i ddarparu lle diogel i'n staff a'n gwirfoddolwyr gyda digon o doiledau a chyfleusterau lles.

Er bod Canolfan yr Ymwelwyr wedi'i hadeiladu mewn lleoliad dramatig gyda bywyd gwyllt anhygoel a golygfeydd eiconig, nid yw'r cyfleusterau presennol yn medru gwneud y gorau o hyn. Felly rydym am fanteisio ar y cyfle i ailgynllunio'r caffi fel bod ymwelwyr yn teimlo'n agosach at y dirwedd hon, beth bynnag fo'r tywydd, gyda ffenestri o'r llawr i'r nenfwd heb bileri i ymyrryd â'r olygfa. Bydd y caffi yn haws i fyned iddo, ar un lefel sengl yn hytrach nag ar lefelau gwahanol fel y mae ar hyn o bryd.

Beth sydd ynghlwm â'r gwaith adeiladu?
Mae'r strwythur deulawr presennol sy'n gartref i swyddfeydd y warchodfa, cyfleusterau lles staff a thoiledau cyhoeddus Ynys Lawd yn dod at ddiwedd ei oes.

Byddwn yn dymchwel yn rhannol y strwythur deulawr a rhan o'r strwythur unllawr (sydd wedi'i leoli yng nghefn yr eiddo), a chreu adeilad modern sy'n addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain. Bydd yr adeilad newydd yn golygu bod modd i'r caffi fod ar un lefel, bod modd cael toiledau newydd, mwy o faint i ymwelwyr a chael storfa fwy ar y llawr gwaelod. Bydd y llawr cyntaf yn cynnwys ystafell gyfarfod, ardal arbennig i staff gael newid eu dillad, cegin, toiledau a storfa i staff, a swyddfa newydd. Bydd y datblygiad hwn yn cynnig cyfleusterau llawer gwell i'r staff, gwirfoddolwyr a'r 185,000 o ymwelwyr sy'n ymweld â'r warchodfa yn flynyddol.

Mae'r estyniad newydd wedi'i ddylunio i adlewyrchu'r dirwedd leol. Bydd yr adeilad newydd, trwy ffenestri o'r llawr i'r nenfwd, yn galluogi ymwelwyr i werthfawrogi golygfeydd dramatig Ynys Lawd a'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol hon, ac yn magu'r awydd ynddynt i fynd allan i'w mwynhau. Bydd yr adeilad yn llawer mwy effeithlon ac ecogyfeillgar, wedi'i insiwleiddio'n dda, gyda ffenestri gwydr dwbl a thoiledau mwy effeithlon sy'n arbed dŵr.

Bydd y gwaith hefyd yn cael gwared ar y tanc septig presennol ac yn gosod cyfleuster newydd i drin carthion yn ei le. Trafodwyd lleoliad a chynllun y cyfleuster trin carthion hwn mewn ymgynghoriad â Chyfoeth Naturiol Cymru ac fe fydd e'n defnyddio system gwely cyrs naturiol i lanhau'r dŵr llwyd. Bydd hyn yn gwella'n sylweddol ar y system gostus bresennol sy'n cyrraedd diwedd ei hoes.

Fedrwch chi weld argraff arlunydd o'r adeilad ar flog y warchodfa natur.

Pryd fydd y gwaith adeiladu yn cychwyn?
Rhoddwyd y contract i RL Davies Construction Ltd yn dilyn proses dendro fanwl. Dechreuodd y waith o paratoi'r safle ac aildrefnu'r maes parcio ym mis Ebrill gyda gwaith yn dechrau ar yr adeilad ym mis Mehefin.

Pa effaith fydd gan y gwaith adeiladu yma ar ymwelwyr â'r warchodfa pan fydd yr adeilad yn cael ei godi?

- Bydd y warchodfa natur yn parhau ar agor drwy gydol y cyfnod hwn, fel y bydd Tŵr Elin a fydd yn cael ei staffio bob dydd er mwyn i ymwelwyr weld yr adar y môr a darganfod mwy am fywyd gwyllt anhygoel yr ardal.
- Bydd y ddau faes parcio lleiaf (uwchben ac islaw'r prif faes parcio) ar agor drwyddi draw. Yn ystod y cyfnod adeiladu, bydd dim taliad i gerbydau am ddwy awr gyntaf eu harhosiad. Ar ôl hynny, byd tal o £2.50 ar gyfer hyd at ddiwrnod cyfan (ac yn rhad ac am ddim i aelodau RSPB a deiliaid bathodynnau glas).
- Bydd y Ganolfan Ymwelwyr ar gau yn ystod y gwaith adeiladu, ac rydym yn gwneud trefniadau i gael cyfleusterau arlwyo a thoiledau dros dro yn ystod y cyfnod hwn. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd dyddiau (megis yn ystod cyfnod dymchwel yr adeilad) pan fydd y prif faes parcio ar gau, ac felly ni fydd mynediad i unrhyw doiledau na chyfleusterau arlwyo ar y dyddiau hynny.
- Efallai y bydd angen i'r contractwr gau'r ffordd, gyda chytundeb Cyngor Sir Môn, am gyfnodau byr yn ystod y gwaith adeiladu / dymchwel. Ar yr adegau hyn, ni fydd y maes parcio uchaf ar gael chwaith.
- Mae'r goleudy yn cael ei reoli gan sefydliad gwahanol. Mae modd prynu tocynnau ar ddiwrnod eich ymweliad wrth y bont. Cysylltwch â nhw yn uniongyrchol am brisiau ac amserau agor. http://www.southstacklighthouse.com
- Byddwn yn gweithio gyda'r contractwr i leihau unrhyw anghyfleustra ac yn cyfathrebu unrhyw gyfnodau pan fydd cyfleusterau ar gau o flaen llaw. Fe wnawn ni hyn ar y wefan, ar Twitter (sydd ar gael i unrhyw un sydd â mynediad i'r we (https://twitter.com/rspbsouthstack) a thrwy ymateb i ymholiadau ffôn (01407 762100).

Beth fydd yr effaith ar eiddo cyfagos a bywyd gwyllt yn ystod y gwaith adeiladu?

- Byddwn yn gweithio gyda'r contractwr i gyfyngu'r gwaith adeiladu i oriau gwaith yn ystod yr wythnos yn unig, er mwyn lleihau unrhyw dwrw i ein cymdogion.
- Fe wnaeth ecolegydd annibynnol gynnal arolwg bywyd gwyllt o'r ardal ddatblygu fel rhan o'r cais cynllunio, a chawsom drafodaethau helaeth gyda Chyfoeth Naturiol Cymru i sicrhau na fydd y gwaith trin carthion newydd yn niweidio buddiannau'r Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, a bydd planhigion priodol yn cael eu plannu ar gyfer y dirwedd a'r lleoliad.
- Rydym yn gwneud trefniadau o flaen llaw i sicrhau na fydd unrhyw adar sy'n nythu ar y warchodfa yn cael eu heffeithio gan y gwaith adeiladu. Yn wreiddiol, roeddem wedi gobeithio cynnal y gwaith dymchwel y tu allan i'r tymor nythu, ond nid yw hynny'n bosib mwyach.

Sut mae’r ailddatblygiad yn cael ei ariannu?

Mae'r ailddatblygiad allweddol hwn yn bosibl gyda chefnogaeth drwy Rhaglen Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru Datblygu Gwledig 2014-2020, sy'n cael ei ariannu gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (CAEDG) a Llywodraeth Cymru. Ynghyd â'n cyfraniad ariannol ein hunain, mae'r ailddatblygiad hwn yn cyfateb i fuddsoddiad o dros £1m yn y safle, a blynyddoedd o waith i helpu i sicrhau atyniad sydd o ansawdd, diogelu swyddi a gwasanaethau ymwelwyr yn yr ardal.

Nid yw'n hawdd dod o hyd i'r lefel hon o fuddsoddiad ac nid yw'n rhywbeth y gall yr RSPB ei wneud heb ystyriaeth sylweddol. Gydag adnoddau elusennol yn gyfyngedig, bu'n rhaid i ni gyflwyno achos busnes manwl ar gyfer ein Bwrdd, Ymddiriedolwyr a chyllidwyr - a dangos cyfrifoldeb ariannol i'n haelodau, ein cefnogwyr a'r Comisiwn Elusennau. Mae'r achos busnes hwn yn sicrhau bod arian yn cael ei wario'n effeithiol, a bod incwm yn cael ei nodi er mwyn sicrhau bod y safle'n gynaliadwy yn y tymor hir.

Mae'r gost i’r RSPB o reoli Ynys Lawd yn amrywio yn flynyddol, gan ddibynnu ar ffactorau megis faint o reolaeth cynefin rydym yn ei wneud mewn blwyddyn benodol neu atgyweiriadau y gallai fod yn rhaid i ni ei wneud i'r seilwaith a chyfleusterau i ymwelwyr. Ond, mae'r gost net yn o leiaf £100,000 bob blwyddyn ac mewn rhai blynyddoedd mae'r gost yn sylweddol fwy na hynny. Mae'r costau'n cynnwys rheoli rhostiroedd a chaeau arfordirol ar gyfer eu bywyd gwyllt arbennig, gan gynnwys y frân goesgoch, y glesyn serennog a chweinllys Ynys Cybi. Mae'r cyfraniad ariannol a ddaw o'r siop a'r caffi yn helpu i sicrhau nad yw'r gost net hon hyd yn oed yn uwch.

Mewn ambell i flwyddyn mae'r RSPB yn llwyddiannus wrth wneud cais am grantiau neu roddion sy'n ein galluogi i fuddsoddi mwy yn y safle trwy brosiectau sy'n cael eu hariannu o'r ffynonellau yma. Ond,

mae'r math hwn o incwm yn amrywio'n sylweddol o flwyddyn i flwyddyn ac, yn yr hinsawdd ariannol bresennol, mae'n fwy anodd o lawer i'w gael. £100,000 net yw isafswm cost rheoli'r safle, a 'dyw hwnnw ddim yn cyfri gorbenion angenrheidiol eraill sydd yn gefn i waith ar y warchodfa, fel gwaith gan ein hasiant tir ac ecolegwyr sy'n cefnogi'r tîm lleol.

Er mwyn darparu incwm cynaliadwy yn y dyfodol, mae'n rhaid i ni gyflwyno tâl i barcio ceir yno.

6. Rheolaeth yr RSPB o warchodfa natur Clogwyni Ynys Lawd

Pa waith mae'r RSPB yn ei wneud ar Ynys Lawd?
Mae Ynys Lawd yn ardal warchodedig dan gyfreithiau natur y DU a'r Undeb Ewropeaidd - mae'r dirwedd hon yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) ac mae'n ofyniad cyfreithiol bod yr RSPB (ar ran y perchennog, sef Cyngor Sir Ynys Môn) yn cynnal rheolaeth flynyddol o oddeutu 300 hectar o rostir a'r clogwyni uwchben y môr. Os na fyddwn yn dilyn ein cynllun rheoli ein hunain neu os ydym niweidio'r SoDdGA a'r Ardal Cadwraeth Arbennig, gallem wynebu cosbau cyfreithiol difrifol. Mae cyflawni'r gofynion cyfreithiol hyn yn gofyn am swm sylweddol o arian.

Mae'r RSPB ar Ynys Lawd yn berchen ar y Ganolfan Ymwelwyr a'r maes parcio, Tŵr Elin (adeilad rhestredig Gradd 2), adeiladau Plas Nico a thir fferm ym Mhen y Bonc a Chors Goch. Rydym yn prydlesu Mynydd Tŵr a Comin Penrhosfeilw oddi wrth Gyngor Ynys Môn am rent rhad. Yn gyfnewid, mae'r RSPB yn ysgwyddo bron holl gostau rheoli'r safle a fyddai, fel arall, yn gorfod dod o goffrau'r cyngor ac o drethdalwyr Ynys Môn.

Pam mae angen rheoli natur? Pam na allwn adael llonydd iddi?
Arweiniodd arferion ffermio hynafol ar Ynys Gybi at dirwedd lle mae yna doreth o rug. Slawer dydd, byddai anifeiliaid fferm wedi pori'r tir gan greu ardaloedd heb unrhyw rug (llecynnau moel), grug ifanc a hen rug. Pan ddaeth yr arferion ffermio yma i ben, fe ddiflannodd 80% o'r rhostir yr iseldir hwn ledled y DU. Yn ffodus, ar Ynys Lawd, mae olion y dirwedd arbennig hon yn parhau i fod diolch i reoli tir gofalus, ac mae glöynnod byw prin fel y glesyn serennog ac adar fel y frân goesgoch yn ffynnu yma. Mae dynodiadau cyfreithiol yn cydnabod y cynefin prin a gwerthfawr hwn. Os na fyddwn yn ei reoli'n dda, byddai'r grug yn tyfu'n rhy doreithiog a thal a byddem yn colli'r clytwaith o gynefinoedd a'r rhan fwyaf o harddwch a gwerth cynhenid Ynys Lawd ar gyfer bywyd gwyllt.

Mae'r RSPB yn pori'r rhostir gyda'n praidd o ddefaid dan ofal bugail, ac yn torri ac yn llosgi'r hen rug. Rydym yn talu contractwyr lleol i'n helpu i gyflawni'r dasg hon. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (corff statudol Llywodraeth Cymru sy'n sicrhau bod amgylchedd ac adnoddau naturiol Cymru yn cael eu cynnal a'u defnyddio'n gynaliadwy), yn gweithio gyda ni i sicrhau ein bod yn dilyn y rhwymedigaethau cyfreithiol, ac rydym yn creu cynllun wedi'i gytuno ar y cyd ar gyfer rheoli Ynys Lawd.

Mae ein tîm yn dewis yn ofalus yr ardaloedd o rostir hŷn i'w bori, eu torri neu eu llosgi ac yn monitro effaith y rheolaeth hon ar blanhigion ac adar prin. Mae Denise, ein warden, ynghyd â thîm o staff a gwirfoddolwyr, hefyd yn gofalu am ein tir fferm ac yn sicrhau iechyd ein defaid a'n gwartheg sy'n pori'r tir. Mae brain coesgoch, sydd ymysg yr adar prinnaf sy'n nythu ym Mhrydain, yn elwa o'r dull hwn o bori ac, yn ystod y tymor nythu, rydym yn gyfrifol am reoli'r caeau a'r rhostir er mwyn sicrhau bod gan y cywion ddigon i'w fwyta.

Yn ogystal â rheoli'r rhostir, mae'n rhaid i ni wneud nifer o arolygon o'r rhywogaethau prin o adar, planhigion a bywyd gwyllt ar y warchodfa. Rydym hefyd yn monitro adar y môr yma yn flynyddol. Trwy fonitro adar a bywyd gwyllt, gallwn weld a oes unrhyw newidiadau yn eu niferoedd. Os ydym yn gweld newid mawr, edrychwn ar yr hyn sydd wedi ei achosi ac os oes modd i ni wneud unrhyw beth i adfer y niferoedd hynny. Pwrpas ein cynllun rheoli pum mlynedd yw cynorthwyo'r planhigion a'r anifeiliaid hyn yn seiliedig ar wybodaeth arbenigol.

Mae costau eraill i'r warchodfa yn cynnwys cynnal a chadw'r llwybrau, y maes parcio, paneli gwybodaeth rhyngweithiol, camerâu byw ar y clogwyni a chostau staff. Rydym yn cyflogi tua 20 o bobl ar Ynys Lawd sydd, nid yn unig yn gwneud gwaith cadwraeth, ond sydd hefyd yn rhedeg y ganolfan ymwelwyr, y siop a'r caffi i'r safonau uchel y mae ymwelwyr o bedwar ban byd sy'n teithio i Ynys Lawd yn eu disgwyl.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach sy'n ymwneud â'r hyn rydych chi wedi'i ddarllen uchod, mae croeso i chi e-bostio ni ar cymru@rspb.org.uk